

## Pecyn Gwybodaeth

### Diwrnod Cyngor ar Gyllid

Dydd Gwener 23 Mawrth  
10 y.b. tan 12 y.p.  
Clwb Rygbi Pencoed



[Chris.elmore.mp@parliament.uk](mailto:Chris.elmore.mp@parliament.uk)



[Sarah.murphy@senedd.wales](mailto:Sarah.murphy@senedd.wales)



[Huw.irranca-davies@senedd.wales](mailto:Huw.irranca-davies@senedd.wales)

### Gair gan Chris, Huw a Sarah..

Trwy ein gwaith ar draws yr etholaeth, rydym yn gwybod bod gan lawer o grwpiau a sefydliadau lleol syniadau gwych ond yn aml maen nhw'n cael anhawster dod o hyd i gyllid a chael gafael arno.

Mae'r deuddeg mis diwethaf wedi bod yn heriol iawn i bawb, a gwyddom fod llawer ohonoch wedi'u chael amser anodd yn codi arian a dyna pam mae ein seithfed Diwrnod Cyngor ar Gyllid yn bwysicach nag erioed.

Mae gennym ni arianwyr a sefydliadau newydd yn mynychu eleni felly mae llawer o wybodaeth a chymorth y gallech chi elwa ohono. Byddem wrth ein bodd yn ymweld â'ch prosiect a darparu cymorth pellach ar ôl y Diwrnod Cyngor heddiw, os byddwn yn gallu gwneud hynny. Mae croeso i chi gysylltu â'n swyddfeydd gan ddefnyddio'r manylion cyfagos.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn gweld y diwrnod yn werth chweil; a chofiwch y gallwch gysylltu â'r cyllidwyr yn syth ar ôl y digwyddiad ar y manylion cyswllt a ddarperir yn y pecyn gwybodaeth hwn.

Dymuniadau gorau,

Chris Elmore AS | Huw Irranca-Davies AS | Sarah Murphy AS

Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



"Mae **Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol** yma i chi fel cymunedau i adfer ac ailadeiladu yn dilyn pandemig COVID-19. Gallwch wneud cais am gyllid i ddarparu gweithgaredd newydd neu bresennol neu i gefnogi eich sefydliad i newid ac addasu y heriau newydd ac yn y dyfodol, gan gynnwys yr argyfwng costau byw presennol.

Rydyn ni yma i helpu."

**Ffôn:** 0300 123 0735

**Ebost:** [wales@tnlcommunityfund.org.uk](mailto:wales@tnlcommunityfund.org.uk).

**Gwefan:** [www.tnlcommunityfund.org.uk/](http://www.tnlcommunityfund.org.uk/)



Gall treftadaeth fod yn unrhyw beth o'r gorffennol rydych chi'n ei werthfawrogi ac eisiau ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. O'r archaeoleg dan eich traed i'r parciau hanesyddol rydyn ni'n eu caru, o atgofion gwerthfawr i fywyd gwyllt prin. Mae **Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol** yn credu bod deall, gwerthfawrogi a rhannu treftadaeth yn dod â phobl at ei gilydd, yn ysbrydoli balchder mewn cymunedau ac yn hybu buddsoddiad mewn economïau lleol.

**Ffôn:** 0292 034 3413

**Ebost:** [wales@heritagefund.org.uk](mailto:wales@heritagefund.org.uk)

**Gwefan** [www.heritagefund.org.uk](http://www.heritagefund.org.uk)



**Cyngor Celfyddydau Cymru** yw'r corff swyddogol sy'n ariannu a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Mae'r arian a ddosbarthwn yn dod gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o'n harian yn mynd i weithwyr proffesiynol creadigol proffesiynol neu sefydliadau (gan gynnwys sefydliadau yn y gymuned) i gynnal prosiectau neu raglenni gwaith cysylltiedig â chelf ledled Cymru. Dewch i gael sgwrs gyda ni a gweld sut y gallen ni eich helpu!

**Ffôn:** 03301 242733

**Ebost:** [grants@arts.wales](mailto:grants@arts.wales)

**Gwefan:** [www.arts.wales](http://www.arts.wales)



Mae **Cyngor Chwaraeon Cymru** yn cynnal dau gynllun.

Mae **Gymru, Byddwch Actif** yn cynnig grantiau o £300 i £50,000 ar gyfer prosiectau yng Nghymru sy'n bwriadu gwneud o leiaf un o'r canlynol: lleihau anghydraddoldeb, creu cynaliadwyedd hirdymor, cyflwyno ffyrdd newydd neu wahanol o weithredu. Er enghraifft, gellid defnyddio cyllid i: Gwirfoddolwyr uwchsgilio lle mae gennych fylchau mewn sgiliau neu brofiad; prynu offer sy'n caniatáu i fwy o bobl gymryd rhan mewn chwaraeon; datblygu ffyrdd newydd neu wahanol o gyflawni gweithgarwch corfforol; cyrraedd pobl sy'n cael eu tangynrychioli mewn chwaraeon ar hyn o bryd a gweithgarwch corfforol.

**Crowdfunder.** Mae Chwaraeon Cymru wedi ffurfio partneriaeth gyda Crowdfunder i gefnogi clybiau cymunedol a gweithgareddau i godi arian er mwyn gwella cyfleusterau. Mae'r cynllun ar gyfer clybiau nid-er-elw a grwpiau cymunedol sy'n gobeithio codi arian at welliannau 'oddi ar y cae.' Gallai hyn fod yn dŷ clwb, ystafelloedd newid, maes parcio neu hyd yn oed ffensio.

**Ffôn:** 0300 300 3111

**Ebost:** [info@sportwales.org.uk](mailto:info@sportwales.org.uk)

**Gwefan:** [www.chwaraeon.cymru](http://www.chwaraeon.cymru)



Rheolir Grantiau Cymunedol Tesco gan Groundwork

Mae Grantiau Cymunedol Tesco yn helpu i ariannu miloedd o brosiectau lleol ledled y wlad. Ers 2016 mae'r cynllun wedi cefnogi dros 40,000 o grwpiau cymunedol gyda mwy na £90 miliwn mewn grantiau.

Mae Grantiau Cymunedol Tesco yn agored i elusennau a sefydliadau cymunedol i wneud cais am grant o hyd at £1,500. Bob tri mis, mae tri achos da lleol yn cael eu dewis i fod yn y bleidlais i gwsmeriaid tocyn glas yn siopau Tesco ledled y DU.

**Ffôn:** Ian Dennis on 07909 168 121

**Ebost:** [ian.dennis@groundwork.org.uk](mailto:ian.dennis@groundwork.org.uk)



Mae'r **Bridgend Association of Voluntary Organisations (BAVO)** yn darparu gwasanaethau cyllid a chefnogaeth i helpu grwpiau gwirfoddol, elusennol a chymunedol i wibio drwy gymhlethdodau cyllido a chodi arian. Gan dynnu ar brofiad helaeth, mae BAVO yn darparu gwasanaeth am ddim i'ch helpu i ddod o hyd i'r ffynonellau cyllid sy'n briodol i weithgareddau eich grŵp.

**Ffôn:** 01656 810 400

**Ebost:** [bavo@bavo.org.uk](mailto:bavo@bavo.org.uk)

**Gwefan** [www.bavo.org.uk](http://www.bavo.org.uk)



**Datblygu Economaidd** Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae gennym y wybodaeth a'r profiad i helpu'r rhai sy'n bwriadu sefydlu neu ehangu busnes ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae gennym 3 grant busnes ar gael -

Bydd y **Grant Datblygu Busnes** a'r Grant Dichonoldeb Busnes yn cefnogi Mentrau Bach a Chanolig ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (sy'n gweithredu trosiant o 3 blynedd neu fwy) i arallgyfeirio, datgarboneiddio a thyfu a fydd yn cyfrannu at greu economi leol fywiog a chryf.

Mae **Cronfa Dechrau Busnes** Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu grantiau rhwng £250 a £4,000 i fusnesau newydd a busnesau newydd o fewn y 3 blynedd gyntaf o fasnachu.

<https://www.bridgend.gov.uk/business/business-support-and-advice/>



Fe sefydlwyd **Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr** yn 2018, rydym yn rhaglen sy'n ymrwmo i helpu Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i fod yn lle mwy ffyniannus i fyw a gweithio drwy gefnogi pobl leol i oresgyn materion cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant a chymwysterau am ddim, chwilio am swyddi â chymorth a datblygiad CV, gan gynnwys lleoliadau gwirfoddoli ynghyd â chyfeirio at asiantaethau cymorth eraill fel sy'n briodol.

**Ffôn:** 01656 813517

**Ebost:** [employability@bridgend.gov.uk](mailto:employability@bridgend.gov.uk)

**Gwefan:** [www.bridgend.gov.uk/residents/benefits-and-support/employability-bridgend](http://www.bridgend.gov.uk/residents/benefits-and-support/employability-bridgend)



Mae Dŵr Cymru yn gwmni nid-er-elw, mae ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn. Mae Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru yn gyfle i gymunedau hybu ymdrechion codi arian ar gyfer achosion da yn eu hardal. Gall grwpiau cymunedol ac elusennau wneud cais am grantiau o £5,000 tuag at eu prosiect.

**Ebost:** [communityfund@dwrcymru.com](mailto:communityfund@dwrcymru.com)

**Gwefan:** [www.dwrcymru.com/communityfund](http://www.dwrcymru.com/communityfund)



Mae **Tîm Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT)** Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gweinyddu Cronfa CAT y Cyngor sy'n cynorthwyo grwpiau cymunedol i ddatblygu a gwella asedau, yn amodol ar hunanreolaeth, o dan y rhaglen CAT, fel eu bod yn dod yn gynaliadwy ac y gellir eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Tîm hefyd yn cynorthwyo wrth weinyddu cynllun grant Cyfalaf Cyngor Tref a Chymuned y Cyngor.

Tel: 07487 769 620

Email: [Guy.Smith@bridgend.gov.uk](mailto:Guy.Smith@bridgend.gov.uk)

Website: <https://www.bridgend.gov.uk/business/community-asset-transfer>



Mae Rhaglen Grant Cymunedol y Meysydd Glo wedi buddsoddi dros £20 miliwn mewn prosiectau sector cymunedol a gwirfoddol ers 1999, gan dargedu cymunedau sydd â'r angen mwyaf. Rydym yn darparu grantiau (o £500 – £7,000 o refeniw neu gyfalaf) i sefydliadau cymunedol o fewn, neu o fudd i bobl o ardaloedd meysydd glo cymwys yn RhCT a Phen-y-bont ar Ogwr.

Mae Panel Asesu Grant Cymru yn cyfarfod bob chwarter ar gyfer ein prif raglen grant. Yn ogystal, mae gennym Gyllid Llwybr Cyflym hyd at £2,000 ar gyfer effeithlonrwydd ynni neu iechyd a diogelwch.

**Tel:** 01443 404 455

**Email:** [wales@coalfields-regen.org.uk](mailto:wales@coalfields-regen.org.uk)

**Website:** [www.coalfields-regen.org.uk](http://www.coalfields-regen.org.uk)



Mae incwm **Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm** yn dod o ardol l ar bob tocyn a brynir ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus yn y Stadiwm.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn Sefydliad Elusennol Cymru Gyfan ac mae'r holl arian a ddsberthir ganddi'n cael ei wario yng Nghymru. Rhaid i brosiectau ymwneud â'r Celfyddydau, Cymunedau, yr Amgylchedd neu Chwaraeon a'n nod yw gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw a gweithio yng Nghymru.

**Ffôn:** 029 20 022 143

**Ebost:** [info@milleniumstadiumtrust.org.uk](mailto:info@milleniumstadiumtrust.org.uk)



Mae'r Gronfa Dichonoldeb Cymunedol yn parhau â llwyddiant y rhaglen Reach ac fe'i hariennir gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF) ar gyfer Cymunedau a Lle. Mae'n rhaglen cymorth ariannol yn benodol ar gyfer astudiaethau dichonoldeb cymunedol. Mae astudiaeth ddichonoldeb yn ymchwilio ac yn casglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen i ystyried a fydd syniad prosiect yn gweithio. Bydd yn sefydlu beth mae'r prosiect yn ei olygu, faint y bydd yn ei gostio ac a yw'n gynaliadwy. Yna gellir defnyddio'r astudiaeth i gefnogi ceisiadau ariannol mwy ar gyfer arianwyr eraill. Os oes gennych brosiect mewn golwg sydd o fudd i gymunedau Sir Pen-y-bont ar Ogwr, dewch i ddweud popeth wrthym amdano.

**Ffôn:** 01656 815080 **Ebost:** [reach@bridgend.gov.uk](mailto:reach@bridgend.gov.uk)

**Gwefan:** [www.facebook.com/bridgendreach](http://www.facebook.com/bridgendreach)

Mae **Lleoedd Lleol ar gyfer Natur** yn ôl #BacktoNature

Gwnewch gais am becyn gardd **AM DDIM** heddiw!

Trawsffurfio ardal ddigariad yn ardd a fydd o fudd i natur a'ch cymuned. Mae pob pecyn am ddim yn cynnwys planhigion, offer a deunyddiau brodorol i wneud eich gardd hardd. Bydd Cadwch Gymru'n Daclus yn ymdrin â'r holl archebion a danfoniadau, a bydd ein swyddogion prosiect yn dod i ddarparu cefnogaeth ar lawr gwlad i'ch helpu i greu eich gofod natur newydd.


Mae gennym nifer o becynnau gwahanol ar gael gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan.

**Gwefan** [Local Places for Nature - Keep Wales Tidy](#)

Ebost: [Nature@keepwalestidy.cymru](mailto:Nature@keepwalestidy.cymru)



## Cyllidwyr eraill a allai helpu...



Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw dyfodol lle mae'r trydydd sector a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella lles i bawb. Ein cenhadaeth yw bod yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol trwy gysylltu, galluogi a dylanwadu. Gweithio gydag amrywiaeth o asiantaethau arbenigol cenedlaethol, cyngorau gwirfoddol sirol ac asiantaethau datblygu eraill, i ddarparu strwythur cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru.

**Tel:** 0300 111 0124 **Email:** [help@wcva.org.uk](mailto:help@wcva.org.uk)

**Website:** [www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)



Mae'n bleser gan GWR gyhoeddi y byddwn yn gwahodd ceisiadau i'n Cronfa Gwella Cwsmeriaid a Chymunedol yn fuan ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25.

Bydd y gronfa yn agor i geisiadau ddydd Llun 26 Chwefror 2024 ac yn cau i geisiadau am 23:59 ddydd Llun 25 Mawrth 2024.

[Community investment | Great Western Railway \(gwr.com\)](#)

## Cyllidwyr eraill a allai helpu...



Ers 1999, rydym wedi dyfarnu dros £40m mewn grantiau i grwpiau cymunedol ac elusennau ar lawr gwlad i gryfhau cymunedau ledled Cymru.

Rydym yn gweithio gyda'n cefnogwyr hael i gyrraedd y bobl fwyaf anghenus a helpu i greu cydraddoldeb a chyfle yng nghymunedau Cymru.

**Email:** <https://communityfoundationwales.org.uk/>